# STEDDFOTA

Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Rhif 76 | Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau | Mai 2026


# "YN SAIN Y NODAU SWYNOL DAW NEDD Â'R 'STEDDFOD YN ÔL"

Eisteddfod Nedd

**Mae sefydlu Eisteddfod yng Nghastell-nedd wedi bod yn freuddwyd i ni fel pwyllgor ers nifer o flynyddoedd, a hynny am sawl rheswm.**

Rydym mor ddiolchgar am y profiadau ry'n ni wedi cael dros y blynyddoedd yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol fel Gŵyl Fawr Aberteifi, Eisteddfodau Llandudoch, Pontrhydfendigaid a'r Hendy – i enwi dim ond rhai. Yn ail, rydym wedi cymryd ysbrydoliaeth gan sawl Eisteddfod sydd wedi sefydlu dros y blynyddoedd diwethaf megis Eisteddfod y Rhondda ac Eisteddfod Pontypridd, heb anghofio am Eisteddfod Cwmtawe sydd hefyd wedi sefydlu eleni. Mae 'na gymaint o dalent yn ein hardal ac rydym yn teimlo'n angerddol bod angen yr Eisteddfod hon er mwyn rhoi llwyfan iddyn nhw feithrin hyder a phrofiad. Yn rhan annatod o hynny mae'r ysgolion Saesneg a'r dysgwyr Cymraeg wnaeth gystadlu mor frwd yn Eisteddfod yr Urdd, Dur a Môr Parc Margam a'r Fro. Roeddem wrth ein bodd felly bod Ysgol Gyfun Dŵr y Felin wedi cytuno i ni gael cynnal yr Eisteddfod yno, fel ein bod yn gallu adeiladu perthynas gydag ysgolion Saesneg yr ardal.

Felly o'r diwedd, wedi blwyddyn brysur llawn hwyl, o godi arian a threfnu, daeth y diwrnod mawr (Dydd Sadwrn, Ebrill 25), a pan welais i'r môr o siacedi hi-vis y gwirfoddolwyr, a'r tyrfaoedd yn dechrau cyrraedd, ron i'n gwybod - 'Dyma beth yw steddfod! Ma hi am fod yn ddiwrnod da!' Bu'r ymateb a'r awch i gystadlu yn anhygoel – gyda bron i 180 o unigolion a grwpiau wedi cofrestru fe ddechreuodd y rhagbrofion am 8 y bore!

Cawsom wledd o berfformiadau safonol yng ngystadlaethau oed cynradd yr Eisteddfod, a hyfryd oedd gweld cynrychiolaeth o gymaint o ysgolion cynradd Cymraeg ardal Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe - diolch yn fawr i'r grwpiau a phartïon ddaeth i gefnogi.

Yn ystod y prynhawn, tro'r oed uwchradd oedd hi i'n diddanu. Ryn ni'n ddiolchgar iawn i ysgolion Dŵr y Felin a Bae Baglan am gystadlu yn adran y dysgwyr gyda chriw gwych o lefarwyr disglair. A gwefr oedd cael clywed pedwar o gorau ysgolion uwchradd yn cloi sesiwn yr uwchradd.

Cafwyd eto gystadlu arbennig yn yr adran agored, ac unwaith eto, roedd cynrychiolaeth y dysgwyr yn gryf.

Cefais gyngor doeth gan ffrind wrth ddechrau meddwl am sefydlu Eisteddfod, sef "Os gei di oleia 3 côr agored i gystadlu, fyddi di'n iawn!" Wel buon ni'n ffodus i ddyblu hynny a chael 6 côr! Diolch o galon iddyn nhw gyd – y 3 côr lleol, Parti Llwchwr, Côr Meibion Tonna a Chôr Aelwyd Dur a Môr; a'r 3 chôr wwnaeth yr ymdrech i deithio rhai milltiroedd aton ni – Taflais, Bechgyn Bro Taf ac Aelwyd Hafodwenog. Am ddiweddglo, gyda neuadd Ysgol Dŵr y Felin dan ei sang, a'r gynulleidfa wrth eu bodd -nifer ohonynt heb weld y fath ganu corawl erioed o'r blaen. Yn sain Hen Wlad Fy Nhadau roedd hi wedyn yn amser i ni frasgamu draw i'r dre ac i'r Welsh House i fwynhau gig yng nghwmni dau o fandiau ifanc lleol – Contra ac Artemis. Diweddglo perffaith i ddiwrnod bythgofiadwy.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r beirniaid arbennig, ein cyfeilyddion swyddogol, y cystadleuwyr a'r gynulleidfa a ddaeth yn eu cannoedd, ac mae'r diolch olaf yn mynd i'r 9 aelod arall ar y pwyllgor sydd wedi gweithio'n ddi-flino i sicrhau fod y freuddwyd yma o sefydlu Eisteddfod Nedd wedi dod yn wir. Ymlaen â ni at Eisteddfod Nedd 2027!

***Rhys Griffiths***
***Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Nedd***



*Y corau uwchradd yn ymuno am lun - Ystalyfera, Bryntawe, Gwyr ac Ystalyfera Bro Dur*

***Mwy o luniau ar dudalen 6, a gellir darllen yr adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd ar www.steddfota.cymru***

**AELODAETH FLYNYDDOL I EISTEDDFODAU LLEOL £20** *Manylion a ffurflen ymaelodi ar www.steddfota.cymru*

# CYSTADLAETHAU
## 2026-2027

**Manylion ac Amodau ar www.steddfota.cymru**

Diolch yn fawr i nifer o eisteddfodau lleol am eu cydweithrediad wrth i ni dderbyn a chrynhoi gwaith gan enillwyr ifanc 2025-2026 ar ddiwedd mis Ebrill a chychwyn Mai. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld pwy fydd y llenor ifanc buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las eleni. Pob lwc!







## NEWYDD AR GYFER 2026-2027!




### CYSTADLEUAETH NEWYDD CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU AC EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

**Bydd eisteddfodau sy'n aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn gallu cyflwyno'r gystadleuaeth hon i'w rhaglen o Fai 2026 hyd Mai 2029.**

**Byddwn yn anfon manylion gweithdy sioeau cerdd atoch yn ystod y misoedd nesaf a byddwch yn cael gwahoddiad i ddigwyddiad lansio'r gystadleuaeth hon yn Eisteddfod y Garreg Las 2026.**

***Dylid cyflwyno manylion enillwyr eisteddfodau 26/27 i lois@steddfota.cymru cyn Mai 1af 2027.***

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

## GWAHODDIAD

# SEIAT 'STEDDFOTA

Ymunwch gyda ni ar-lein am gyfle anffurfiol i drafod a rhannu syniadau, i glywed am waith diweddar Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

07:30 YH

Nos Iau Mehefin 11

Ar-Lein

Croeso i swyddogion pwyllgorau a threfnwyr eisteddfodau ymuno - Byddai'n braf gweld cynrychiolaeth o bob eisteddfod yno!

Gofynnwn yn garedig i bawb sydd am ymuno gofrestru drwy gysylltu gyda Sian - sian@steddfota.cymru cyn 08.06.26



# ENWEBU ac ANRHYDEDDU

**Diolch am flynyddoedd o wasanaeth**

**Gydag Eisteddfod Genedlaethol 2026 yn agosáu, daeth yr amser i feddwl am enwebu'r unigolion hynny a wnaeth gyfraniad arbennig i'ch eisteddfod leol chi. Tro eisteddfodau'r De fydd hi eleni, a bydd ysgrifenyddion eisteddfodau yn derbyn ebost/llythyr a ffurflen enwebu ar gychwyn Mehefin.**

**Edrychwn ymlaen at weld pwy fydd yn derbyn cydnabyddiaeth gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn 2026, mewn seremoni ar faes Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las.**

**DYDDIAD CAU DERBYN ENWEBIADAU: 1/07/26**

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU | Llywodraeth Cymru Welsh Government | EISTEDDFOD Y Garreg Las 2026

# MOMENT I'W THRYSORI



Yn ddiweddar, digwyddodd rhywbeth reit arbennig. Enillais Dlws yr Ifanc mewn dwy Eisteddfod, ddwy noson yn olynol. Un yn Aberystwyth a'r llall yn Nhalgarreg. Ar ôl yr holl baratoi a'r ailddrafftio, roedd hi'n deimlad braf iawn. Dau dlws, a chael dod nôl i Geredigion, i fy milltir sgwâr, o Fangor bell.

Ond Talgarreg oedd y noson fydd yn aros yn y cof. Oherwydd y tlws, wrth gwrs, ond hefyd oherwydd bod Mam wedi ennill y Gadair yr un noson. Finne ar ddechrau fy nhaith fel awdur, a Mam yn dangos, unwaith eto, pam mai hi yw'r person dwi wastad wedi edrych lan ati.

Roedd yn foment falch, deuluol, ac yn un fydd yn golygu llawer mwy na'r wobr ei hun.

*Aeron Dafydd*




EISIAU CADAIR I'CH 'STEDDFOD?

DYMA'R LLE!

Gwefan newydd gan fardd ifanc o Glynnogfawr sy'n gwneud cadeiriau barddol yn ei hamser sbâr.

CADAIR

cadair.cymru cadeiriau@cadair.cymru


EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES LLANBEDR PONT STEFFAN

# Llais Llwyfan LLANBED

CYSTADLEUAETH GLASUROL I GANTORION DAN 30 OED

**Nos Sul, 30 Awst 2026**

Gofynnir i'r cantorion baratoi rhaglen amrywiol, glasurol ei naws, hyd at 15 munud o hyd. Rhaid cynnwys un gân gan gyfansoddwr Cymreig a dylid ei chanu yn Gymraeg. Bydd angen i bob cystadleuydd gyflwyno eu rhaglen hefyd.

*Noder mai'r unawdau yn unig fydd yn cael eu hamseru, nid y cyflwyniadau.*

**GWOBRAU: 1af £2000 a Thlws 2il £1000 3ydd £500 4ydd £250**

**BEIRNIAID: Andrew Rees ac Iwan Teifion Davies**
**CYFEILYDD: Rhiannon Pritchard**

**RHAGBRAWF: Dydd Sul, 7 Mehefin 2026**

**Festri Brondeifi, Llanbedr Pont Steffan**

**Mewn amgylchiadau penodol cynigir opsiwn Zoom. Cysylltwch â Lois Williams (ysgrifennydd)*

Disgwylir i bob cystadleuydd berfformio DWY gân allan o'i raglen - gan gynnwys yr Unawd Gymraeg

*Bydd angen i'r cystadleuwyr gysylltu â'r cyfeilydd swyddogol os gwelwch yn dda: Rhiannon Pritchard rhiannonp65@hotmail.com 07947249057*

*I gofrestru: Cysylltwch â Lois Williams loisw33@yahoo.com 07717842556*

**DYDDIAD CAU: 29 Mai 2026**

# O 'STEDDFOD I 'STEDDFOD

## EISTEDDFOD GADEIRIOL CRYMYCH



Bardd y Gadair -
Wyn Owens, Mynachlog-ddu



Parti Unsain Ysgol Bro Preseli
yn perfformio

## EISTEDDFOD GADEIRIOL SWYDDFFYNNON



Enfys Hatcher, Llanddewi Brefi
(chwith) yn ennill y Gadair ac
Erin Trysor, Llangeitho -
enillydd Tlws yr Ifanc



Y ddwy ddaeth i'r brig yn y
cystadlaethau cerdd a llefaru
cyfyngedig

## EISTEDDFOD CYMDEITHAS DAFYDD AP GWILYM RHYDYCHEN



Alaw Jones -
enillydd y Goron
a Bardd y Gadair -
Carwyn Tywyn



## EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANEGRYN



Llefarwyr oed Meithrin
a Derbyn



Unawdwyr Blwyddyn 3 a 4

## EISTEDDFOD GADEIRIOL BRYNBERIAN



Arwel Evans - enillydd yr Her
Unawd a'r Canu Emyn dros 18 oed



Bardd y Gadair - Hefin Wyn,
Maenclochog

# EISTEDDFOD GADEIRIOL BRYNGWENITH



*Parti Talgarreg yng nghystadleuaeth y Parti Unsain*



*Daniel Rees, Felindre - buddugol ar y Canu Emyn dros 18 oed*

# EISTEDDFOD GADEIRIOL MAENCLOCHOG



*Rhocesi - y côr buddugol*



*Gaenor Mai Jones - bardd y Gadair*

# EISTEDDFOD CAPEL Y GROES LLANWNNEN



*Enillwyr y gystadleuaeth gorawl - Côr Pam Lai*



*Bardd y Gadair - Siôn Wyn, Felin-fach*

# EISTEDDFOD FACH CAPEL DEWI



*Enillwyr lleol hapus*



*Enillwyr Tarian Sialens McCall*

# EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH




*Gruff Siôn, Llandre - enillydd Tlws yr Ifanc (Cerddoriaeth)*



*Richard Lloyd Jones, Bethel, Caernarfon - bardd y Gadair*

# EISTEDDFOD CALAN MAI ABERYSTWYTH





Aeron Dafydd, enillydd Tlws yr Ifanc (chwith) ac Anwen Pierce, Bardd y Gadair

# EISTEDDFOD GADEIRIOL YR HENDY



Bardd y Gadair - y Parch. Peter Thomas, ac enillydd Tlws yr Ifanc - Celt John



Celyn Davies - enillydd Llefaru Bl.7-9 a Thlws Coffa Elsie Nicholas

# EISTEDDFODAU JAMES PANTYFEDWEN PONTRHYDFENDIGAID



Merched Soar - enillwyr y gystadleuaeth i gôr neu barti



Lleucu Hughes - enillydd Tlws yr Ifanc

# EISTEDDFOD GADEIRIOL RHYDLEWIS



Rebecca Rees - enillydd Tlws yr Ifanc



Delyth Morgans Phillips - Bardd y Gadair

# EISTEDDFOD NEDD




Perfformwyr mwyaf addawol yr adran cynradd ac uwchradd



Y beirniaid cerdd a llefaru - Delyth Medi, Catrin Hughes, Garry Owen a Mari Grug



Arweinyddion y corau buddugol: Janet Jones (Parti Llwchwr 3ydd), Gronw Ifan (Taflais 1af), Richard Vaughan (Bechgyn Bro Taf 2il) Sioned Page-Jones (Aelwyd Hafodwenog 3ydd)


**LLONGYFARCHIADAU!**

**DIOLCH YN FAWR I'R HOLL FFOTOGRAFFWYR**

Mwy o luniau a chanlyniadau ar www.steddfota.cymru

**Edrychwn ymlaen at wythnos brysur yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn, gan obeithio fydd yr haul yn gwenu ar bawb! Cofiwch alw heibio caban pren rhif C2 i'n gweld.**

**Dymunwn yn dda i'r holl gystadleuwyr yn ystod yr wythnos hefyd. Ewch amdani a mwynhewch!**




# Y DIWEDDARAF.....

Bu swyddogion Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn brysur iawn yn ddiweddar yn cefnogi eisteddfodau yn ymarferol, gan gynnwys manylion eisteddfodau ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, darparu gwasanaeth dylunio a cheisio am grantiau er mwyn parhau i gefnogi'r traddodiad eisteddfodol.

Rydym yn gweithio ar feithrin partneriaethau i ddatblygu cyfleoedd i gynyddu niferoedd sy'n cystadlu, mynychu a chefnogi eisteddfodau lleol.

Bu trafodaethau am gystadlaethau gyda'r Eisteddfod Genedlaethol, yn ogystal â chynllun newydd gyda'r Urdd, ac rydym yn edrych ar ddatblygu adnoddau hyrwyddo ac ariannu ar gyfer ein heisteddfodau.

Drwy gydweithio'n agos â phwyllgorau ac unigolion rydym wedi gallu sefydlu ac adfywio eisteddfodau mewn sawl rhan o Gymru.

Cofiwch gysylltu os allwn fod o gymorth i chi.

# ARWEINYDDION, BEIRNIAID A HYFFORDDWYR Y DYFODOL

Eleni am y tro cyntaf, bydd Eisteddfod yr Urdd a Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn cyd-weithio ar gynllun mentora newydd i feithrin arweinyddion, cyfeilyddion a hyfforddwyr y dyfodol.

Bydd cystadleuwyr buddugol yn y categori oedran 19 – 25 Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026 yn cael eu gwahodd i ddiwrnod o hyfforddiant er mwyn dysgu mwy am y sgil o gadw llwyfan i redeg yn llyfn fel arweinydd, beth i edrych amdano fel beirniaid a beth sy'n arfer da wrth hyfforddi sêr y dyfodol. Bydd cyfle hefyd i unigolion eraill dros 18 oed ymgeisio am bump lle pellach ar y cynllun.

Yn dilyn y diwrnod o weithdy yn Aberystwyth ym mis Hydref, bydd y criw ifanc yn bwrw eu prentisiaeth mewn eisteddfodau lleol o amgylch Cymru, cyn symud ymlaen i gysgodi arweinydd, beirniaid neu hyfforddwr profiadol yn eisteddfodau cylch yr Urdd.

Yn ôl Llio Maddocks, Cyfarwyddwr Celfyddydol yr Urdd, "Rydym yn falch iawn o fod yn lansio y cynllun mentora newydd yma fydd, gobeithio, yn annog to newydd o bobl ifanc i gefnogi steddfota yng Nghymru.

"Mae na gymaint o dalent i'w weld ar lwyfannau ein heisteddfodau – talent sydd wedi ei feithrin gan hyfforddwyr gweithgar ar lawr gwlad, wedi ei fireinio gan feirniadaethau teg, oll dan ofal cadarn ein harweinwyr. Dyma gyfle'r genhedlaeth nesa i gadw ein traddodiad gwerthfawr yn fyw."

Ychwanegodd Sian Evans o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, "Gwelwn y cynllun hwn fel cam pwysig i roi cyfle i'r genhedlaeth nesaf fod yn rhan o'n traddodiad Eisteddfodol. "Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r bobl ifanc i'r gweithdy a'n heisteddfodau lleol, a rhoi blas iddynt o'r gwahanol agweddau o'r traddodiad Eisteddfodol. "Gobeithiwn y bydd y bobl ifanc yn mwynhau'r profiadau ac yn cael eu hysbrydoli i gefnogi datblygiad ein traddodiadau a'n 'steddfodau."

Bydd modd i unigolion wneud cais am y 5 lle rhydd sydd yna ar y cwrs trwy ffurflen gais ar wefan yr Urdd.



**Sian Evans (Swyddog Datblygu)**
sian@steddfota.cymru
07795164911



**Lois Williams (Swyddog Cyfathrebu)**
lois@steddfota.cymru
01570 423700 / 07717842556

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

# EISTEDDFODAU 2026-2027

**CEFNOGWCH EICH 'STEDDFOD LEOL!**

**Gweler ddyddiadau eisteddfodau'r misoedd i ddod, gyda digon o ddewis i 'steddfotwyr brwd!
Mae'n debygol nad yw'r rhestr hon yn gyflawn, felly cofiwch bod y rhestr ar www.steddfota.cymru yn cael ei diweddaru wrth i ni dderbyn unrhyw wybodaeth am ddyddiadau. Bydd y rhestrau testunau ar gael i'w lawrlwytho yn ogystal, unwaith y byddwn wedi'u derbyn gan eisteddfodau.
Gofynnwn yn garedig, felly, i bwyllgorau gysylltu cyn gynted â byddwch wedi sefydlu dyddiad eich eisteddfod.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 23-29 Mai | Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn | www.urdd.cymru | | |
| 13 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth | Rhian Thomas | rhian23957@hotmail.co.uk | 07748 020968 |
| 13 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Bontnewydd | Lowri Rhys | lowrirhys@aol.com | |
| 20 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Castellnewydd Emlyn a'r Cylch | Bethan Jones | wbjonesmeb@btinternet.com | 01239 711734 |
| 20 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst | Elin Jones | Jones_emj@hotmail.com | 07949048306 |
| 27 Mehefin | Eisteddfod y Fenni (Uwchradd ac Oedolion) | Rosemary Williams | davidwilliams177@btinternet.com | 07929609689 |
| 27 Mehefin | Eisteddfod Bro Aled Llansannan | Sioned Hedd | sionedhedd@yahoo.com | 07789 262355 |
| 3-4 Gorff. | Eisteddfod Powys Bro Ddyfi | Sioned Elin Hughes | eisteddfodpowys@outlook.com | 07971520122 |
| 4 Gorff. | Eisteddfod Bro Llandegfan | Helen Davies | helencaeffynnon@yahoo.co.uk | 01248714705 |
| 4 Gorff. | Eisteddfod Pontypridd | Bethan Ford | bethanf@hotmail.com | |
| 7-12 Gorff. | Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen | www.international-eisteddfod.co.uk | | |
| 11 Gorff. | Eisteddfod Yr Hen Gapel Llanbrynmair | Ffion Morgan | eisteddfodllanbrynmair@gmail.com | 07940 467799 |
| 25 Gorff. | Eisteddfod Trallong | Mary Robinson | maryrobinsonbrecon@gmail.com | 01874 624350 |
| 1 Awst | Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las | www.eisteddfod.cymru | | |
| 28-31 Awst | Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr P.S | Dorian Jones | doriancop@icloud.com | 07814 440581 |
| 19 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth | Mair Davies | mairdavies10@gmail.com | 01970 890245 |
| 19 Medi | Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl | Anwen Evans | anwenevans@live.co.uk | 01269 833568 |
| 26 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Penbre a Phorth Tywyn | Matthew Tucker | eisteddfodppt@gmail.com | 07538760786 |
| 26 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd | Susan Price | iwan_wyn_price@hotmail.com | 01591 610303 |
| 9 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Llanarth | Catrin Bellamy Jones | catrinbj1@gmail.com | 01545 580279 |
| 10 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn | Bethan Jones | eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com | |
| 17 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys | Margaret Jones | margaretjones@pc-q.net | 01686430474 |
| 17 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Felinfach | Meinir Lewis | euros@mailsaq.net | 01570 470050 |
| 31 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint | Tina Morris | tina.morris@lasrecycling.com | 07816 602981 |
| 14 Tach. | Gŵyl Cerdd Dant Caernarfon | www.cerdd-dant.org | | |
| 2027 | | | | |
| 16 Ionawr | Eisteddfod Nefyn | Nia Midwood | eisteddfodgadeiriolnefyn@gmail.com | |
| 23 Ionawr | Eisteddfod Gadeiriol Chwilog | Gwyn Parry Williams | gwynarhian@btinternet.com | 01766 810717 |
| 30 Ionawr | Eisteddfod Garndolbenmaen | Esyllt Williams | esylltport@yahoo.com | |
| 7 Chwefror | Eisteddfod Gadeiriol Y Felinheli | Elen Gwenllïan | eisteddfodfelinheli@gmail.com | |